Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

29.11.24

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM CYLLID YSGOLION CEREDIGION yn rhithiol drwy 'Teams' ar **Ddydd Iau, 5 Rhagfyr 2024** am **4.30yh** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol
3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 9 Mai 2024 (Atodiad A)
4. Materion yn codi o'r Cofnodion
5. Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol
6. Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig
7. Fformiwla Gyllido
8. Unrhyw Fater Arall
9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS BUDGET FORUM will be held remotely via 'Teams' on **Thursday, 5 December 2024** at **4.30pm** for the transaction of the following business:

1. Apologies
2. Disclosure of personal interest
3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 9 May 2024 (Appendix A)
4. Matters arising from the Minutes
5. Overall Corporate Position
6. Schools Delegated Budget
7. Formula Funding
8. Any Other Business
9. Date of Next Meeting

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully

***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer: Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Ceredigion Schools Budget Forum

**Cofnodion cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar ZOOM ar ddydd Iau, 9 Mai 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Endaf Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Lee Burrows, Pennaeth: Ysgol Cenarth a Llechryd; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau; Carys Morgan, Pennaeth: Ysgol Bro Pedr a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael; Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Carys Fowles, Cyfrifydd Cynorthwyol a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.26pm – 5.03pm)

1. **Ymddiheuriadau**
    i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill gyda'r Cyngor.
    ii. Ymddiheurodd Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Mair Hughes, Pennaeth: Ysgol Penglais; Catryn Lawrence, Pennaeth: Ysgol Penrhyncoch a Penllwyn ac Owain Jones, Pennaeth: Ysgol Gyfun Aberaeron am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu Buddiannau Personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Sefyllfa Cyllid Corfforaethol**
   Gwnaeth Swyddog Arweiniol: Cyllid a Chaffael egluro bod cyfarfod wedi'i gynnal ar 27ain Medi 2023 yn Siambr y Cyngor ar gyfer holl Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ceredigion er mwyn darparu diweddariad ar faterion sy'n gysylltiedig â chyllid, a wnaeth gymryd lle'r fforwm.

   Roedd proses pennu cyllideb 2024/2025 wedi bod yn heriol i bawb dan sylw. Roedd y Cyngor Llawn wedi cytuno ar gynnydd o 11.1% yn Nhreth y Cyngor, ynghyd â thua 70 o ostyngiadau yn y gyllideb gwerth tua £5.8m a fyddai angen i fonitro'n gyson ar draws y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys

parcio ar y prom/costau parcio newydd yn Aberystwyth, adolygiad Gwasanaethau Dydd a Seibiant, edrych ar leoli Plant Tu Allan i'r Sir a phrosiect Agosach i Adref a chartref gofal preswyl Hafan y Waun. O safbwynt ysgolion, roedd Llywodraeth Cymru ond wedi cynyddu'r cyllid craidd 2.9%, fodd bynnag, cafodd ysgolion Ceredigion gynnydd o 3.1% y neu cyllidebau, a oedd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i addysg ac nid oedd yn golygu unrhyw newid i'r sefyllfa a amlinellwyd ym mis Medi.

Yn y tymor canolig, roedd y rhagolygon yn ymddangos yn heriol iawn, ac roedd y modelu'n awgrymu bod y setliad wrth Lywodraeth Cymru nail ai yn 0% fflat hyd 1% o gynnydd. Roedd ansicrwydd pryd y byddai'r Etholiad Cyffredinol yn cael ei gynnal yn ffactor arall i'w ystyried. Roedd yr adolygiadau seilwaith addysg Ôl-16 ac ysgolion cynradd yn parhau, ac roedd yn amlwg nad oedd y cyngor yn gallu parhau i gynnig yr ystod o wasanaethau a ddarparwyd i'r cyhoedd.

Nododd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes ei bod yn amser pryderus iawn, ac fel Prif Swyddog Addysg, roeddent yn cwrdd yn gyson gyda chyd-weithwyr eraill ar draws Cymru ac roedd y sefyllfa yn un debyg ar draws y wlad. Roedd yr holl awdurdodau lleol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cyflawni'r addysgu a'r dysgu yr oeddent yn gobeithio eu cyflawni pan oedd gostyngiad cyson mewn grantiau a chyllidebau. Rhwng 2020-2022, roedd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn ymddangos yn sefydlog wrth i symiau mawr o gyllid gael eu darparu yn ystod yr adferiad ar ôl pandemig Covid-19, ond roedd ysgolion unwaith eto yn teimlo'r esgid fach yn gwasgu, yn debyg i'r cyfnod cyn Covid-19.

6. **Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig**

Eglurodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael bod cau'r cyfrifon ar gyfer 23/24 bron yn barod, ac roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod y Balansau Ysgol Dirprwyedig yng Ngheredigion tua £3.8m ar 31/03/24, o'i gymharu â £5.1m ar 31/03/23 ac £8.3m ar 31/03/22. Roedd hyn o'i gymharu â sefyllfa arferol cyn Covid o tua £1.8m. Nid oedd y dirywiad yn rhy annhebyg i'r sefyllfa genedlaethol lle roedd £304 o Falansau Ysgolion a ddygwyd ymlaen ar 31/03/22 wedi gostwng i £208m yn 31/03/23. Roedd gan bob ysgol heriau unigol ac roedd gan un ysgol ddiffyg bacha r 31/03/23. Cafodd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Swyddogion Cyllid a Chaffael, Pobl a Threfniadaeth a chan y Gwasanaeth Ysgolion i Benaethiaid a Llywodraethwyr ei gydnabod a'i ganmol yn llawn.

Cyfeiriwyd at y ffurflen Diswyddiadau Gwirfoddol Cynnar a'r prosesau mwy cadarn sydd ar waith, i sicrhau bod atebolrwydd cyhoeddus am gostau ac i sicrhau y gellid dangos cyfnod ad-dalu rhesymol.

Roedd cyfradd Cyflogwr Pensiwn Athrawon wedi cynyddu i dros 28% (gwerth £1.4m) ac er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n cael ei ariannu'n llawn, nid oedd hyn wedi'i gadarnhau eto. Ychwanegodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes, yn ystod cynhadledd ddiweddar CLILC, y gofynnwyd cwestiynau ynghylch cyfraniadau Pensiwn Athro. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn aros am

hysbysiad ond eu bod yn eithaf hyderus o'r cyllid gan Lywodraeth y DU. Trefnwyd cyfarfod pellach ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Roedd trafodaethau'n parhau rhwng yr Undebau Llafur a NJC gyda Dyfarniad Cyflog APTC/NJC Ebrill 2024. Roedd yr Undebau Llafur wedi cyflwyno cynnig am gynnydd o 10% neu £3,000 y SCP neu pa un bynnag oedd fwyaf. Roedd yr awdurdod lleol wedi cyllidebu ar gyfer £1,200 fflat fesul SCP (cyfartaledd o tua 4%) felly byddai unrhyw beth mwy na hyn yn creu heriau sylweddol. O ran dyfarniad cyflog Athrawon Medi 2024, roedd y gyllideb yn tybio cynnydd o 4%. Roedd gweinidogion wedi ymyrryd yn y broses gyflog ddiwethaf i athrawon, ac er eu bod wedi dweud y byddai'n cael ei ariannu'n llawn, dim ond 92% oedd wedi'i ariannu mewn gwirionedd.

Eglurodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes fod data ar StatsCymru wedi datgelu mai Ceredigion oedd yr ail orau gyda lefel yr ysgolion yn dirprwyo cyllidebau llynedd.

**7. Grantiau Llywodraeth Cymru- 4 ffrwd newydd**

Nodwyd, o fis Ebrill 2024, bod Llywodraeth Cymru wedi cyfuno dros 20 o grantiau gwahanol i un Grant Addysg Awdurdod Lleola oedd yn cynnwys 4 ffrwd: Safonau Addysg, Diwygio, Ecwiti a Chymraeg 2050. Ni ragwelwyd y byddai llawer o effaith ar yr ysgolion gan fod y newidiadau yn fwy gyda'r ceisiadau papur grant. Roedd yr awdurdod lleol wedi rhagweld y byddai gostyngiad mwy mewn grantiau ar gyfer 2024-25, ond nid dyma oedd y sefyllfa.

Gwnaeth Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes tanlinellu'r diffyg cysondeb rhwng pob un o'r grantiau gan fod llai o fonitro ac adrodd ei angen ar gyfer rhai o'r grantiau. Roedd yr aros yn parhau i Lywodraeth Cymru dosbarthu rhai o'r templedi. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dyfeisio'r fformiwla ac yn dyrannu swm penodol i bob ysgol yn hytrach na'r awdurdod lleol.

**8. Cynllun Ynni *Re:fit***

Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fod yr awdurdod lleol yn gyffredinol yn dod â llawer iawn o ynni o flaen llaw ar gyfer blwyddyn y contract sy'n rhedeg o fis Hydref 2024 i fis Medi 2025. Roedd 70% eisoes wedi'i gasglu ar gyfer Hydref 2024, ac roedd arwyddion yn awgrymu y byddai pris trydan yn gostwng 20% a nwy 30%, a fyddai'n arwain at arbediad yn ystod y flwyddyn. Er bod y sefyllfa'n wahanol ym mhob safle, dyma'r duedd gyffredinol, ac erbyn cyfnod y gaeaf, dylai fod gwahaniaeth buddiol.

Yn ogystal, roedd yr awdurdod lleol yn gweithio'n gorfforaethol gyda phartner *Re:fit* a fyddai'n ymgymryd ag ymarfer pen bwrdd gyda ffocws ar effeithlonrwydd ynni. Pe bai'r canfyddiadau'n canfod bod cyfleoedd i leihau carbon a chost, byddai angen ystyried dod o hyd i fodel ariannu/buddsoddi a oedd yn gweithio i'r awdurdod lleol.

9. **Unrhyw fater arall**

Nododd Peter Leggett fod y rhan fwyaf o ysgolion yn mynd trwy broses diswyddiadau, ac roedd yn briodol nodi bod gan Benaethiaid bryderon gyda'r gyllideb ddirprwyedig a'r effaith ar ysgolion. O'i safbwynt ef, roeddent yn colli cynorthwywyr addysgu, roedd pryderon am ymyrraeth, IDPs plant a'r posibilrwydd o gael eu galw'n gyfreithiol. Ychwanegodd, gan y byddai Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr yn debygol o dreulio mwy o amser yn addysgu, y byddai eu gallu i ddelio â materion eraill yn cael ei effeithio. Yn ogystal, roedd pryder ynghylch sut y byddai ysgolion yn gallu ariannu cyfleoedd ac adnoddau hyfforddi.

Nododd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes bod y sylwadau yn ddilys. Roedd yn bryder wrth symud ymlaen gan fod angen ymyrraeth a chymorth ychwanegol ar ddisgyblion o oed ifanc. O safbwynt y gyllideb, roedd cynorthwywyr dysgu yn cael eu hystyried yn gyntaf pan oedd angen gwneud arbedion , er hyn, roedd hi'n gwerthfawrogi bod yr awdurdod lleol yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa fregus pe bai tribiwnlys.

Eglurodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion ei fod yn derbyn y sylwadau. Roedd dau Bennaeth wedi rhannu eu pryderon gydag ef, nid yn unig ynghylch anawsterau wrth bennu cyllidebau eleni, ond y byddai'r flwyddyn flaenorol yn fwy heriol eto, gyda llai o opsiynau i'w harchwilio.

Nododd Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd, o safbwynt derbyniadau, os oedd dosbarthiadau derbyn yn fwy na 30 mewn nifer yn y gorffennol, roedd yr awdurdod lleol yn gofyn i'r ysgol i newid pethau'n fewnol gan y byddai Llywodraeth Cymru yn danfon llythyr yn egluro ei bod yn anghyfreithlon cael mwy yn y dosbarth. Yn fwy diweddar, o ystyried yr heriau sy'n wynebu ysgolion gyda llai o staff oherwydd gostyngiad mewn cyllid a chyfradd geni is, nid oedd yr awdurdod lleol wedi gofyn i ysgolion wneud newidiadau gan eu bod am ddangos bod dosbarthiadau o 30 neu fwy yn ddigwyddiad rheolaidd a bod plant dan anfantais.

Eglurodd Carys Fowles, pan fydd ysgolion yn gosod eu cyllidebau, y rhoddwyd ystyriaeth i nifer y disgyblion oedd i fod i ddechrau'r ysgol, ym mlynyddoedd 5 a 6 a staffio, er nad oedd modd rhagweld nifer y plant sy'n symud i ardal.

Ychwanegodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod derbyniadau ar gyfer Medi 2025 wedi cau, fodd bynnag, roedd rhwng 100-150 o blant angen gwneud cais. Roedd gan bob ysgol heblaw Ysgol Gynradd Aberaeron le i'w gynnig ar hyn o bryd. Yr anhawster gyda'r ffigurau a ragwelir oedd y gallai llawer o bethau newid, a dim ond nawr roedd y gwasanaeth yn hyderus gyda'r data ar gyfer Medi 2024.

10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.